# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 21ain 2021 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Eifion Davies, Bethan Thomas, Meilir Jones, Dewi Pritchard a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Maldwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Maldwyn Jones yn gallu bod yn bresennol cytunodd Rita Jones i gadeirio'r cyfarfod. Gan fod dros hanner y flwyddyn wedi pasio cytunwyd i beidio newid y cadeirydd tan y cyfarfod blynyddol nesa ym mis Mai 2022. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwenda Morris am 6 mis oherwydd salwch.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Datganodd Eifion Davies ei fuddiant yn nhrefniadau les Neuadd Sarnau.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-</u>
i) Llwybr troed Llwyn Iolyn - cafwyd cadarnhad fod y swyddog hawliau tramwy am gysylltu â'r tirfeddianwyr i drafod adfer y llwybr.
ii) Cafwyd cadarnhad fod rhaglen waith wedi cael ei baratoi i wneud y gwelliannau i'r B4501 yng Ngwmtirmynach.

<u>b) Mynwentydd.</u>
Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer trwsio giatiau a railings mynwent Llandderfel. Cytunwyd i roi'r gwaith i Paul Addlington gan ei fod yn gallu cychwyn yn syth ac yn cynnwys man waith arall yn ei bris. Cytunwyd i ddefnyddio'r arian a garwyd ymlaen o gyllideb cynnal a chadw'r flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r arian a glustnodwyd eleni i gwblhau'r gwaith. Cytunwyd i ofyn i Gwmni Ciltalgarth wneud man waith clirio ychwanegol ym mynwent Frongoch.

<u>c) Prydles newydd i gae chwarae Frongoch.</u>
Adroddodd y clerc fod y brydles swyddogol wedi cael ei dderbyn ac y byddai'n trefnu i'w gofrestru gyda'r Gofrestr Tir. Cytunwyd i ymgeisio am grant er mwyn gosod lloches bws ar y safle.

<u>ch) Trefniadau les Neuadd Sarnau.</u>
Cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda swyddogion y neuadd er mwyn rhoi'r trefniadau rhyngddynt a'r Cyngor Cymuned mewn lle yn swyddogol (Eifion Davies yn datgan ei fuddiant).

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cynllun Ardal Bala a Phenllyn - derbyniwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod ar-lein a chytunodd Rita Jones, Eilir Rowlands a Bethan Thomas gynrychioli'r Cyngor yn y drafodaeth.

<u>b) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Nodyn Briffio Cyfarfodydd aml-leoliad ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - cytunwyd i ddilyn y canllawiau newydd.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

ii) Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.
iii) Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo.
iv) Canllawiau Coronafeirws ar gyfer meysydd chwarae plant ac ardaloedd chwarae awyr agored - cytunwyd i’w anfon ymlaen i bwyllgorau'r caeau chwarae.

<u>c) Parc Cenedlaethol Eryri.</u>
i) Gwybodaeth am eu Cronfa Cymunedol.
ii) Arolwg o’u defnydd o’r iaith Gymraeg.

<u>ch) Dŵr Cymru.</u>
i) Gwaith diogelwch ar Argae Llyn Celyn - cafwyd adroddiad gan y clerc o’r hyn yr oedd Alwyn Jones wedi ei weld yn y cyfarfod briffio.
ii) Capel Coffa Capel Celyn yn rhan o ŵyl Drysau Agored, Cadw.

<u>d) Amrywiol.</u>
i) Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRP) - ymgynghoriad draft ar gynigion y fframwaith tâl ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.
ii) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - diweddaru’r canllawiau er mwyn cefnogi Model Cod Ymddygiad 2016.
iii) Heddlu Gogledd Cymru - Gwasanaeth negeseuon cymunedol newydd ‘Rhybudd Cymunedol’.
iv) RWE Renewables UK - Fferm Wynt Gaerwen – derbyniwyd llythyr yn nodi eu bwriad i godi fferm wynt newydd a chytunwyd i’w drafod ymhellach pan fyddai’r manylion llawn ar gael.
V) Comisiwn Ffiniau i Gymru - eu hadroddiad Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol newydd Cymru.
vi) Triathlon Y Bala - cais am adborth. Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol bod unrhyw broblemau wedi codi ar y diwrnod.
vii) Grŵp Cynefin - Byngalo ar osod yn Maes y Priordy, Llandderfel. Cytunwyd i ddosbarthu’r wybodaeth.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i’w cefnogi:-
C21/0535/04/LL – Trosi rhan i fflat hunangynhwysol. Glanrafon Hall, Glanrafon.
C21/0552/04/LL – Codi estyniad llawr cyntaf uwchben y garej. Belle Vista, 3 Glan Tryweryn, Frongoch.
C21/0874/04/DT – Addasiadau i fodurdy a gweithdy presennol. Bryn, Llandderfel.

**<u>vi) Materion Ariannol.</u>**

<u>a) Praesept.</u>
Derbyniwyd ail randal y Praesept o £4,500.

<u>b) Gwefan y Cyngor.</u>
Derbyniwyd llythyr gan HG Webb Designs yn egluro byddai'r gost flynyddol o gynnal y wefan yn codi i £250.

<u>c) Llythyr gan HSBC ynglŷn â’r cyfrifon banc.</u>
Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu penderfyniad y banc i godi ffi misol a ffioedd eraill ar gyfri'r Cyngor a chyfrifon elusennol a chymdeithasol lleol.



Arwyddwyd: ………………………………………….   Dyddiad: …………………………………..

ch) Cytunwyd i dalu’r canlynol:-
Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol) a Cwmni Ciltalgarth (gwaith brys ym mynwent Frongoch).

d) Ceisiadau ariannol
Derbyniwyd cais gan Ronald McDonald House Charities UK. Cytunwyd i’w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Diogelwch ar yr A4212 ger mynedfa Canolfan Tryweryn, Frongoch.
Yn dilyn damwain ddifrifol rhwng car a beic modur ger mynedfa'r Ganolfan anfonwyd cais i’r Adran Briffyrdd gwneud arolwg o’r safle a gosod mesuriadau ychwanegol i arafu cerbydau sy’n gyrru heibio. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad eu bod am gynnal arolwg diogelwch ac am gysylltu â’r heddlu i gael fwy o wybodaeth parthed y ddamwain.

b) Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwyn canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd.
i) Cais i glirio’r ffordd gyferbyn a Cwm Cottage, Bethel ar ôl i fan parseli fynd yn sownd yn y ffos a gadael mwd ar ei hol.
ii) Tail gwartheg ar y ffordd gefn wrth Llwyn Ci i lawr am Lanfor.
iii) Cais am gyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. i bentref Llandderfel.
iv) B4401, Bala i Landderfel - wal ochr isa’ i Bryn Melyn, Llandderfel, wedi disgyn i lawr a phant yn y ffordd cyn cyrraedd y gornel gyferbyn a Aefren.
v) Cais ar arwyddion ychwanegol yn nodi for y ffordd gefn o Fethel i Landderfel yn anaddas i gerbydau mawr.
vi) Llwybr troed sy’n arwain o loches bws Cefnddwysarn i fyny am yr ysgol yn llithrig oherwydd y chwyn sy’n tyfu arno.
vii) Angen torri’r gwrych ochr Tŷ Nant, Cefnddwysarn er mwyn gwella’r gweledydd i yrwyr sy’n troi ar draws y ffordd i Bryn Banon Bach a Bryn Ethol. Cais am arwyddion ychwanegol hefyd i ddiogelu’r safle.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Lun, Tachwedd 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd: ………………………………………….     Dyddiad: …………………………………..